

# Cynnal noson gemau ar-lein



P'un a yw'n Fortnite neu FIFA, mae siarad â'ch plentyn am yr hyn y maent yn ei wneud ar-lein yn arf pwysig i helpu i'w cadw'n ddiogel. Gall gwneud gweithgaredd gyda'ch gilydd fod yn ffordd dda o gychwyn y sgwrs!

Mae cynnal noson gemau ar-lein gyda'ch plentyn yn ffordd wych o ddod i adnabod eu hoff gêm a siarad am ffyrdd rydych chi'n eu cefnogi ar-lein. Yr hyn sy'n bwysig yw'r canlynol:

## Dod o hyd i amser



## Dewis gêm

## Sgwrsio



**Dewch i adnabod y platfform** by trwy herio'ch plentyn i gêm ar ei hoff platfform. Crëwch eich cyfrif eich hun ac archwiliwch y gêm. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall y gwahanol declynnau a gosodiadau sydd ar gael a'r hyn y mae eich plentyn yn ei weld a'i brofiadau.

**Gofynnwch gwestiynau agored** i roi cyfle i'ch plentyn drafod pam eu bod yn mwynhau chwarae gemau ar-lein a dangos i chi beth maen nhw eisoes yn ei wybod am ddiogelwch ar-lein. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn iddynt:

- Beth yw dy hoff gêm di i'w chwarae ar-lein?
- Pe gallet newid un peth am chwarae gemau ar-lein, beth fyddai hynny?
- Sut wyt ti'n siarad gyda rhai o dy ffrindiau ar-lein?
- Beth yw dy hoff nodwedd?
- A oes unrhyw beth sydd ddim mor wych am y gêm hon neu unrhyw gemau eraill rwyd ti'n eu chwarae?

**Meistrolwch y pethau sylfaenol gyda'ch gilydd** a darganfyddwch sut i riportio a blocio chwaraewyr eraill ar y platfform, sut i adael gêm, a sut i sefydlu chwarae-grŵp yn ddiogel. Atgoffwch nhw y gallan nhw ddod atoch chi os ydyn nhw'n gweld unrhyw beth sy'n eu cynhyrfu neu'n eu poeni.

**Archwiliwch y gosodiadau preifatrwydd a diogelwch** a phenderfynwch pa rai sy'n briodol i'w defnyddio. Efallai yr hoffech edrych ar wefannau'r darparwr platfform neu gêmio i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael.